**CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL**

**HYSBYSIAD DIOGELWCH**

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Mae'r Awdurdod Lleol (ALl) a'i gontractwyr cludiant yn ystyried diogelwch disgyblion yn ddifrifol iawn. Er y bydd contractwyr fel rheol yn darparu gyrwyr a hebryngwyr sy'n gyfarwydd â'r disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth bws o'r cartref i'r ysgol, efallai y bydd yna adegau pan na fydd y gyrrwr a'r hebryngwr arferol ar gael. Efallai na fydd y gyrrwr / hebryngwr fydd yn cymryd eu lle yn gyfarwydd â'ch plentyn na chi fel rhieni.

Felly, er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion, mae'r ALl yn gofyn y canlynol:

- Rhaid i'r rhieni i gyd ddanfon a chyfarfod â'u plant wrth ddrws y bws. (Sylwch, os gwelwch yn dda, ei bod yn ofynnol i rieni / gofalwyr / oedolion cyfrifol gyfarfod plentyn oed ysgol gynradd wrth y bws, waeth beth fo'i oedran na'i allu canfyddedig i gerdded adref heb oedolyn.)
- Ni chaniateir i blant gerdded yn annibynnol at gar sy'n disgwyl amdanynt. Bydd angen i bob plentyn gael ei nôl oddi ar y bws gan oedolyn cyfrifol.

Dylai'r rhieni hefyd wneud y canlynol:

- Rhoi gwybod i'r hebryngwr os bydd rhiant arall yn nôl eu plentyn a rhoi enw'r rhiant hwnnw i'r hebryngwr.
- Symud i ffwrdd oddi wrth y bws cyn gynted ag y bo modd, fel bod yr hebryngwr yn gallu gweld yn glir y rhieni sy'n disgwyl ac unrhyw blant sydd heb gael eu nôl cyn i'r bws adael.

- Pan fydd y bws yn gollwng plant, os byddwch chi’n medru gweld bod rhiant/gofalwr heb gyrraedd yr arosfa bws i gyfarfod plentyn, rhowch wybod i’r hebryngwr / gyrrwr ar unwaith.

**Ceir wedi'u parcio mewn mannau a ddynodwyd i fysiau godi a gollwng**

I gynorthwyo’r gyrwyr ac i sicrhau y gall barcio eu fysiau mor agos at y palmant ag y bo modd ac wrth y mannau dynodedig i fysiau godi a gollwng, peidiwch â pharcio wrth ymyl y fan lle bydd y bws yn aros, yn yr arosfa bws nac yn union y tu ôl i’r arosfa bws, os gwelwch yn dda.

Bydd eich cymorth gyda'r uchod yn sicrhau diogelwch parhaus y plant ar gludiant ysgol a bydd yn gymorth i’r gyrrwr a’r hebryngwr, yn ogystal â lleihau unrhyw amhariad ar y rhwydwaith priffyrdd lleol.

Diolch i chi am eich cydweithrediad

**Tony Hart**

Uwch Swyddog Cludiant Ysgol